Sganiwch yma ar gyfer mwy o hwyl i'r teulu...


www.valeofglamorgan.gov.uk/familyfun

ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG
GLAMORGAN HERITAGE COAST

# Darganfyddwch fythau a chwedlau Ogwr...

**Lle gwych yw Castell Ogwr i ddysgu am hanes yr ardal mewn ffyrdd hwyliog a chyffrous. Crwydrwch adfeilion y castell a chlywed straeon dychrynllyd am smyglwyr ac ysbrydion arswydus. O'r fan hyn rydych chi hefyd yn gallu mynd ar daith gerdded natur neu ymweld â'r traeth cyfagos am bicnic a saffari pyllau trai.**

**Am beth rydych chi'n aros?**
**Ewch i fwynhau'ch hunain!**



## Hanes Castell Ogwr

Cafodd Castell Ogwr ei godi dros 900 o flynyddoedd yn ôl ar ddechrau'r 12fed ganrif. Cartref William de Londres oedd y castell yr adeg honno, un o'r Arglwyddi Normanaidd niferus a ddaeth draw o Ffrainc i goncro Lloegr – ac yn fuan ar ôl hynny a ddechreuodd oresgyn Cymru.

Amddiffynnodd y castell William a'i lu goresgynnol rhag y Cymry lleol nad oedden nhw'n hapus am weld eu gwlad yn cael ei goresgyn! Fel llawer o gestyll Normanaidd cynnar, ar y dechrau cafodd ei adeiladu gan ddefnyddio pridd a phren. Yn ddiweddarach, cafodd y castell ei ailadeiladu gan ddefnyddio cerrig a oedd yn ei amddiffyn yn well rhag ymosodwyr a'r tywydd fel ei gilydd.

Yn y pen draw, gadawodd William y castell ym 1116 pan gyrhaeddodd byddin fawr o Gymry gan ei orfodi i fynd oddi yno. Arnold, ei fwtler, a arweiniodd fyddin William wrth amddiffyn y castell tra oedd ei feistr yn ffoi. Yn nes ymlaen, cafodd Arnold ei urddo'n Syr Arnold Butler am ei deyrngarwch.


creative RURAL COMMUNITIES

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

LEADER

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ble byddech chi'n adeiladu castell?

**Nid mewn unrhyw le y byddai goresgynwyr Normanaidd fel William yn adeiladu eu cestyll… roedd yn rhaid iddyn nhw ddewis y lleoliad iawn yn ofalus. Y lle delfrydol i adeiladu castell fyddai:**

- **Rhywle gyda dŵr gerllaw** ar gyfer yfed, golchi a choginio
- **Rhywle ger rhyd** – rhan fas o afon lle gallai pobl groesi'n ddiogel
- **Ar fryn,** gyda golwg eang dros y dirwedd o'i gwmpas – fel y gallai ymosodwyr gael eu gweld yn haws
- **Yn agos i adnoddau naturiol,** fel coed a cherrig ar gyfer adeiladu
- **Rhywle gydag amddiffynfeydd naturiol,** fel afonydd, mynyddoedd neu gorstiroedd yn amddiffyn y castell ar un neu ragor o'i ochrau

**Ceisiwch feddwl fel William a dewis ardal ar y map lle byddech yn adeiladu'ch castell. Yna, edrychwch ar waelod y dudalen i weld pa mor dda oedd eich dewis!…**






## Pa mor dda oedd eich dewis?

**ARDAL 1 = Ardderchog!** Rydych chi wedi dewis y lle perffaith i adeiladu'ch castell. Bydd digon o adnoddau naturiol gan eich pobl a byddan nhw'n ddiogel rhag ymosodwyr. Go dda chi.

**ARDAL 2 = Da!** Mae bron popeth sydd ei angen arnoch chi yma. Yn sicr, bydd eich castell yn llwyddiant!

**ARDAL 3 = Ddim yn ddrwg!** Mae rhai pethau da am y lle rydych wedi'i ddewis, ond hefyd rhai pethau sydd ddim cystal… Gallai'ch castell ddod yn adfail yn gynt nag yr ydych chi'n ei feddwl!